# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 2**

SAFONAU

**PENNOD 1**

YMYRRYD YM MATERION RHEDEG YSGOLION A GYNHELIR

*Ymyrraeth gan Weinidogion Cymru*

**12 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sicrhau cyngor neu gydlafurio**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os oes gan Weinidogion Cymru bwer i ymyrryd ym materion rhedeg ysgol a gynhelir.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, gyda golwg ar wella perfformiad yr ysgol, gyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i wneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu'r ddau ohonynt—

(a) ymrwymo i gontract neu drefniant arall gyda pherson penodedig (a gaiff fod yn gorff llywodraethu ysgol arall) i ddarparu i'r corff llywodraethu wasanaethau penodedig sy'n gynghorol eu natur;

(b) arfer y pwerau o dan adran 5(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 (pwerau cydlafurio) a bennir yn y cyfarwyddyd, yn ddarostyngedig i ddarpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan adran 6 o'r Mesur hwnnw.

(3) Cyn rhoi cyfarwyddyd rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol—

(a) corff llywodraethu'r ysgol, a

(b) yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol—

(i) y person sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, a

(ii) os yw’r ysgol yn ysgol sydd â chymeriad crefyddol, y corff crefyddol priodol.

(4) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (2)(a) ei gwneud yn ofynnol i’r contract neu’r trefniant arall gynnwys telerau ac amodau penodedig.